



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 355 – 19 Ebrill 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 354

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 354.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Nododd ei fod ef, IHJ a TH wedi cyfarfod â deuddeg AS ar 17.04.2012. Cafwyd trafodaeth adeiladol a chwestiynau doeth. Ymhlith yr hyn drafodwyd oedd y canlynol:

- Beth mae S4C yn gwneud yn y gymuned?;
- Y Botwm Coch a throslais Saesneg ar chwaraeon;
- Gwerthu rhaglenni yn rhyngwladol;
- “Mesuriadau Perfformiad”;
- Effaith S4C tu hwnt i'r ffigyrau gwyllo.

Roedd yn cyfarfod â ECS a DC (Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC) i drafod y Cytundeb Gweithredu y prynhawn hwnnw.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Datganiad o bwrpas - esboniodd IHJ gefndir y gwaith i ddatblygu datganiad ffurfiol o bwrpas. Gofynnwyd i'r staff cyfan gyfrannu at y gwaith a grŵp ohonynt i weithio arno. Nododd fod y gwaith yn parhau, ond cyfeiriodd at ddrafft a chrynodeb o'r gwerthoedd craidd ymhlith y papurau.

Gwerthuso – mae wedi gofyn i CHP ail edrych ar y broses gwerthuso staff gyda'r bwriad o greu proses symlach.

Ailstrwythuro - rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar yr ailstrwythuro. Croesawodd IHJ Dafydd Rhys i'w swydd newydd fel Cyfarwyddwr Cynnwys. Bydd Steve Cowin yn ymuno ar 23.04.2012 fel Prif Swyddog Technegol. Cynhaliwyd cyfarfod staff ar 17.04.2012 i'w hysbysu am y broses ailstrwythuro.

Mesuriadau Perfformiad - Arweiniodd CEv yr Awdurdod drwy gyflwyniad ar fesuriadau perfformiad. Roeddynt wedi'u gosod mewn modd sy'n cyfateb i dargedau RQIV y BBC ac roedd saith prif fesur ynghyd â rhestr o fesuriadau mewnol eraill y dylid eu monitro.

Cylchgronau - Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa'r rhaglenni cylchgrawn gan gyfeirio at y newidiadau yn yr arlwy a welir ar y sgrin o'r 14eg o Fai ymlaen. Esboniodd DRh y newidiadau eraill i'r amserlen. Bydd slot 10 o'r gloch o nos Lun i nos Wener yn newid gyda **Sgorio** yn dychwelyd a lle amlwg i raglenni ieuencid a chyfresi comedi. Roedd yr aelodau'n croesawu'r newidiadau.

Gwasanaethau Mynediad - Cyflwynodd IHJ adroddiad GR ar Ddiweddariad i'r Gwasanaethau Mynediad. Mae'r adroddiad yn nodi'r ailasesiad o werth y gwasanaeth ac arbedion posibl pan ddaw ymrwymadau cytundebol i ben. Awgrymwyd cyhoeddi un tendr ar gyfer cytundeb newydd a chymeradwyodd yr Awdurdod y cynnig.

4. Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Adroddodd RhT yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor archwilio a Rheoli Risg. Cyflwynwyd adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2011 i'r Pwyllgor. Yna cyflwynwyd copi diwygiedig o Gynllun Gwaith yr Archwilwyr Mewnol i'r dyfodol. Y prif wahaniaeth yn y ddogfen ddiwygiedig yw gosod y cynllun dros gyfnod o dair blynedd (2012-2015). Cytunodd y Pwyllgor i edrych ar hyn eto ym mis Medi/Hydref.

5. Adroddiad o'r Fforwm Cyfryngau Newydd

Rhoddodd DJ ddiweddariad yn dilyn cyfarfod o'r Fforwm Cyfryngau Newydd ddoe (18.04.2012). Nododd fod tymor y Fforwm yn dod i ben ddiwedd mis Mai felly cyflwynir adroddiad i'r Awdurdod ym mis Mai. Bydd angen i'r Awdurdod ystyried os ydynt yn bwriadu ymateb i'r Adroddiad. Gofynnwyd i DJ gyflwyno drafft cynnar o Adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd i IHJ.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol